**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**21ain Medi 2006**

**CYNRYCHIOLAETH AR BWYLLGOR SAFONAU'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

**Adroddiad gan Ian Miller,**
**Clerc i'r Awdurdod**

**Y penderfyniad a geisir**

**1.** Penodi aelod o'r Awdurdod i wasanaethau ar y Pwyllgor Safonau yn lle'r Cynghorydd Sharon Frobisher.

**Cefndir**

**2.** Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwneud newidiadau i'w gynrychiolaeth ar yr Awdurdod oherwydd absenoldeb estynedig y Cynghorydd David Jones MBE. Mae'r Cynghorydd Frobisher wedi ei phenodi i'r Panel Gweithredol am y cyfnod hyd at Fai 31, 2007.

**3.** Er nad oes gwaharddiad cyfreithiol ar y Cynghorydd Frobisher i barhau i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau, arferiad yr Awdurdod yw nad yw aelodau'r Panel Gweithredol yn gwasanaethu hefyd ar y Pwyllgor Safonau.

**Cefndir** *(parhad)*

**4.** Bydd y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod nesaf ar Hydref 2, cyn y cyfarfod llawn nesaf o'r Awdurdod ar Hydref 23. Mae ystyried pa gamau i'w cymryd yn disgyn felly i'r Panel Gweithredol dan bara 2.3(xi) o'i gylch gwaith sef: "ymdrin ag unrhyw…fater cyfansoddiadol" fel y barno'r Clerc yn ddoeth yn dilyn ymgynghori o flaen llaw â'r Cadeirydd.

**5.** Cafodd pob aelod wybod am y sefyllfa, a gofynnwyd i unrhyw un a fyddai â diddordeb mewn cael ei ystyried i'w benodi roi gwybod hynny imi erbyn Medi 13. Daeth dau enw i law sef:
Y Cynghorydd Margaret Griffith (Gwynedd)
Y Cynghorydd Cliff Shone (Sir y Fflint)

**Cyngor**

**6.** Gellir penodi y naill neu'r llall. Fodd bynnag, mae'r aelod arall o'r Awdurdod sydd ar y Pwyllgor Safonau, sef y Cynghorydd Gwilym O Williams, hefyd yn dod o Wynedd. Am y rheswm hwnnw, awgrymir mai'r Cynghorydd Cliff Shone y dylid ei benodi i'r Pwyllgor Safonau.

**Argymhelliad**

**7.** Penodi'r Cynghorydd Cliff Shone i'r Pwyllgor Safonau tan yr etholiadau cyffredin nesaf yn 2008, a gwahodd yr Awdurdod i gadarnhau ei benodiad yn ei gyfarfod ar Hydref 23.